Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Fframwaith cyffredin dros dro:
# Labelu, cyfansoddiad a safonau maeth

Medi 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **Lucy.Valsamidis@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Diweddariadau mewn amser real** | **Diweddariadau wythnosol a misol**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Fframwaith cyffredin dros dro:
## Labelu, cyfansoddiad a safonau maeth

Medi 2022

**Awduron:**
Lucy Valsamidis a Sara Moran

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig y **fframwaith cyffredin dros dro ar labelu, cyfansoddiad a safonau maeth** ym mis Hydref 2020.

Mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar sut i gydweithio a rheoli gwahaniaethau mewn meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol ar lefel yr UE.

Mae'r llywodraethau'n cyhoeddi fframweithiau cyffredin ar ffurf dros dro er mwyn craffu arnynt. Gwnaeth **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd waith craffu** ar y fframweithiau cyffredin dros dro ar labelu, cyfansoddiad a safonau maeth ddechrau 2021.

Pan fydd pob senedd wedi cwblhau'r gwaith craffu, mae'r llywodraethau'n bwriadu ymateb i argymhellion a chytuno ar fersiwn derfynol o'r fframwaith cyffredin.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r fframwaith dros dro.

# Cynnwys

**Crynodeb** ........ **1**

**1. Cefndir** ........ **2**

Deddfwriaeth ........ 2

Rhwymedigaethau rhyngwladol ........ 4

**2. Y fframwaith cyffredin** ........ **7**

**3. Egwyddorion** ........ **7**

Egwyddorion fframweithiau cyffredin ........ 7

Egwyddorion labelu, cyfansoddiad a safonau maeth ........ 8

**4. Rheoli ymwahanu** ........ **9**

Gwneud penderfyniadau ........ 9

Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ........ 9

Rheoli effaith Protocol Gogledd Iwerddon ........ 10

**5. Datrys anghydfodau** ........ **11**

**6. Rheoli rhwymedigaethau rhyngwladol** ........ **12**

Rhwymedigaethau'r DU a'r UE ........ 12

Rhwymedigaethau rhyngwladol ........ 12

**7. Monitro, adolygu a diwygio ........................................................13**

**8. Tryloywder ac atebolrwydd ........................................................14**

# Crynodeb

Fel un o Aelod-wladwriaethau'r UE, dilynodd y DU gyfraith yr UE ar labelu, cyfansoddiad a safonau maeth. Mae cyfraith yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a werthir yn yr UE gael datganiad maeth yn nodi gwybodaeth am ei gynnwys egni a maethynnau. Mae hefyd yn nodi rheolau wedi'u cysoni ar awdurdodi honiadau maeth ac iechyd; ychwanegu fitaminau, mwynau a sylweddau penodol eraill at fwydydd; cyfansoddiad a labelu atchwanegiadau bwyd; a chyfansoddiad a labelu bwyd i fabanod a phlant bach.

Gan fod y cyfnod pontio wedi dod i ben, mae cyfraith yr UE ar labelu, cyfansoddiad a safonau maeth wedi'i dargadw mewn cyfraith ddomestig ac mae swyddogaethau wedi'u trosglwyddo o sefydliadau'r UE i awdurdodau domestig. Caiff Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU ymwahanu â chyfraith yr UE a ddargedwir. O dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae cyfraith yr UE ar labelu, cyfansoddiad a safonau maeth yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r fframwaith cyffredin yn nodi y bydd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gwneud penderfyniadau ar y cyd yn y cyd-destun newydd hwn. Bydd y llywodraethau'n gweithio ar y cyd i gynnal cysondeb neu'n cytuno i ymwahanu wrth gymeradwyo ceisiadau ar gyfer honiadau maeth ac iechyd newydd; addasu cofrestrau a rhestrau perthnasol; a gwneud cynigion polisi o fewn cwmpas y fframwaith.

Bydd y llywodraethau'n ceisio cytuno a ddylid dilyn yr un trywydd o ran cyfraith a pholisi neu ymwahanu. Os na all y llywodraethau gytuno a ddylid mabwysiadu'r un dull neu ymwahanu, gellir codi anghydfod.

Rhan o ddiben y fframwaith yw sicrhau gweithrediad marchnad fewnol y DU. Yn fuan ar ôl i'r fframwaith gael ei gyhoeddi, pasiodd Senedd y DU Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020. O dan y Ddeddf, yn gyffredinol, mae modd i nwyddau a ganiateir mewn un rhan o'r DU neu a fewnforir iddi gael eu gwerthu mewn unrhyw ran arall o'r DU. Gallai hyn gyfyngu ar effaith ymarferol newidiadau i gyfraith Cymru ar safonau cyfansoddiadol a labelu bwyd. Mae'r llywodraethau bellach wedi cytuno ar broses ar gyfer ystyried eithriadau i'r Ddeddf mewn meysydd fframwaith cyffredin.

Mae'r fframwaith yn cydnabod mai'r llywodraethau datganoledig sy'n gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd cymhwysedd

datganoledig. Fodd bynnag, prin yw'r ystyriaeth a roddir i sut y bydd y llywodraethau'n cydweithio ar rwymedigaethau rhyngwladol. Ers i'r fframwaith gael ei gyhoeddi, mae'r DU a'r UE wedi cytuno ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sy'n nodi'r telerau ar gyfer eu perthynas newydd. Mae'r llywodraethau hefyd bellach wedi cytuno ar eiriad safonol ar rwymedigaethau rhyngwladol, cysylltiadau rhwng y DU a'r UE a Phrotocol Gogledd Iwerddon ar gyfer fframweithiau cyffredin.

Nid yw'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraethau roi'r wybodaeth ddiweddaraf i seneddau a rhanddeiliaid am eu dulliau gweithredu na chynnwys seneddau a rhanddeiliaid wrth ei adolygu a'i ddiwygio. Mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi cytuno mewn egwyddor i adrodd yn rheolaidd i'r seneddau ar y fframweithiau cyffredin. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno'n unochrog i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar y fframweithiau cyffredin ac i ymgynghori â'r Senedd a rhanddeiliaid wrth eu hadolygu a'u diwygio.

# 1. Cefndir

## Deddfwriaeth

### Cyfraith yr UE a ddargedwir

Mae cyfraith yr UE ar faeth wedi'i dargadw mewn cyfraith ddomestig yn dilyn diwedd y cyfnod pontio Brexit. Mae Atodiad II o ddogfen y fframwaith yn nodi'r ddeddfwriaeth yng nghwmpas y fframwaith.

Mae **Rheoliad yr UE Rhif 1169/2011** yn ei gwneud yn ofynnol i fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a werthir yn yr UE gael datganiad maeth yn nodi gwybodaeth am ei gynnwys egni a maeth. Mae deddfwriaeth bellach yn nodi gofynion ychwanegol:

- Mae **Rheoliad (EC) Rhif 1924/2006** yn nodi fframwaith i fusnesau wneud **honiadau maeth ac iechyd** am eu cynhyrchion, ac yn galluogi honiadau o'r fath i gael eu cymeradwyo yn dilyn asesiad gwyddonol;
- Mae **Rheoliad (EC) Rhif 1925/2006** yn nodi pa **fitaminau, mwynau a sylweddau penodol eraill** y gellir eu hychwanegu at fwydydd; sut y gellir asesu a chymeradwyo sylweddau newydd; ac yn amlinellu gofynion cyfansoddiadol a labelu ar gyfer bwydydd y mae sylweddau wedi'u hychwanegu atynt;
- Mae **Rheoliad (UE) Rhif 609/2013** yn nodi gofynion cyfansoddiadol a gwybodaeth cyffredinol ar gyfer **bwyd ar gyfer grwpiau penodol**; yn darparu ar gyfer deddfwriaeth drydyddol yr UE i nodi gofynion penodol; ac yn sefydlu rhestr o sylweddau y caniateir eu hychwanegu at y bwydydd hynny;

- Mae **Cyfarwyddeb 2002/46/EC** yn nodi rheolau ar gyfer fitaminau a mwynau a ddefnyddir mewn atchwanegiadau bwyd ac yn nodi rhestrau o fitaminau a mwynau a ganiateir.

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd gorgyffwrdd â meysydd polisi eraill y bwriedir iddynt ddiogelu iechyd y cyhoedd, gan gynnwys y fframweithiau cyffredin ar gyfer safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu ac ar gyfer diogelwch a hylendid bwyd a hadau.

## Trosglwyddo swyddogaethau i awdurdodau domestig

Mae **Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019** ('Rheoliadau 2019') yn gwneud cywiriadau i gyfraith yr UE ar labelu, cyfansoddiad a safonau maeth er mwyn caniatáu iddi weithio yng nghyd-destun y DU ar ôl diwedd cyfnod pontio Brexit.

Fel rhan o hyn, maent yn trosglwyddo cyfrifoldeb ar gyfer swyddogaethau megis awdurdodi honiadau maeth ac iechyd o sefydliadau'r UE i gyrff domestig.

Mae Rheoliadau 2019 yn darparu mai Gweinidogion Cymru, neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, yw'r awdurdod priodol ar gyfer ceisiadau.

Maent yn darparu, pan fydd busnes yn gwneud cais o ran honiad am faeth neu iechyd mewn un rhan o'r DU neu Brydain Fawr, y dylai'r awdurdod yn y rhan honno o'r DU wneud penderfyniad ar y cais hwnnw ar ôl ymgynghori ag awdurdodau mewn rhannau eraill o'r DU.

Pan fydd busnes yn gwneud cais i honiad am faeth neu iechyd gael ei gymeradwyo ar draws y DU, mae'n rhaid i'r holl awdurdodau ymgynghori â'i gilydd cyn i'r honiad gael ei gymeradwyo.

Mae'n ofynnol i Weinidogion ystyried cyngor gwyddonol wrth wneud penderfyniadau penodol. Mae Rheoliadau 2019 yn trosglwyddo swyddogaethau cynghori gwyddonol a gynhelir gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop i bwyllgor arbenigol priodol yn y DU.

Nid yw'r rheoliadau'n darparu sail statudol i'r pwyllgor arbenigol newydd gael ei sefydlu nac yn darparu ar gyfer rolau i Lywodraeth y DU na'r llywodraethau datganoledig yn ei weithrediad a'i oruchwyliaeth.

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr fod wyth aelod wedi'u penodi i'r pwyllgor newydd, sef **Pwyllgor Honiadau Maeth ac Iechyd y DU**, sy'n cynghori ar dystiolaeth wyddonol sy'n ategu ceisiadau honiadau maeth ac iechyd. Mae Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor yn  eistedd yn Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau (OHID) yn Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU. Mae wyth aelod o'r Pwyllgor yn gweithio mewn sefydliadau yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, y Ffindir a Denmarc. Nid oes aelod o'r Pwyllgor yn gweithio mewn sefydliad yng Nghymru.  Cyhoeddodd Pwyllgor Honiadau Maeth ac Iechyd y DU ei **adroddiad blynyddol** cyntaf ym mis Mawrth 2022.

Mae Rheoliadau 2019 hefyd yn trosglwyddo swyddogaethau cynghori gwyddonol ar gyfer bwyd ar gyfer grwpiau penodol a fitaminau, mwynau a sylweddau penodol eraill i bwyllgorau arbenigol priodol eraill y DU. Mewn **ymateb i'r ymgynghoriad ar Reoliadau 2019**, dywedodd Llywodraeth y DU y byddai'r pwyllgor cyfrifol yn cael ei benderfynu fesul achos.

Mae **Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020** diwygio Rheoliadau 2019 i weithredu Protocol Gogledd Iwerddon. Maent yn darparu bod cyfraith yr UE ar faeth yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon ac yn gwneud diweddariadau i adlewyrchu deddfwriaeth yr UE yn y cyfnod pontio.

### Adolygiad Llywodraeth y DU o gyfraith yr UE a ddargedwir

Mae **Llywodraeth y DU wedi amlinellu cynlluniau** i gyflwyno Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ("Bil Rhyddid Brexit") i'w gwneud yn haws newid neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir a dileu'r statws arbennig sydd ganddo yng nghyfraith y DU.

Mae **Llywodraeth y DU wedi dweud** na fydd yn ceisio newid cyfraith yr UE a ddargedwir o fewn Fframweithiau Cyffredin heb ddilyn y prosesau y cytunwyd arnynt gan weinidogion ym mhob fframwaith.

Mae **Mick Antoniw**, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, wedi dweud na ddylid rhanddirymu'r safonau y mae Llywodraeth Cymru yn eu dilyn a'i bod am wella safonau yng Nghymru mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig.

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae'r DU wedi ysgwyddo rhwymedigaethau rhyngwladol newydd, ar ôl diwedd y cyfnod pontio, a arferwyd yn flaenorol ar ei rhan gan yr UE. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am negodi rhwymedigaethau rhyngwladol, ac mae'r **llywodraethau**

**datganoledig yn gyfrifol am eu dilyn a'u gweithredu** o fewn eu cymhwysedd.

Mae rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n ymwneud â bwyd yn effeithio ar sawl math o rwymedigaeth rhyngwladol a sawl maes perthnasol, o fasnachu bwyd yn rhyngwladol i ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd a hawliau dynol.

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae'r hawl i fwyd, gan gynnwys bwyd digonol, wedi'i hymgorffori mewn nifer o gonfensiynau rhyngwladol, er enghraifft **Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol** y Cenhedloedd Unedig.

Mae nifer o gyrff a safonau sy'n berthnasol i safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu. Er enghraifft:

- Comisiwn Codex Alimentarius yw'r corff rhyngwladol sy'n gosod safonau bwyd gofynnol (gan gynnwys labelu), canllawiau a chodau ymarfer ar gyfer yr holl fwydydd;
- mae Sefydliad Iechyd y Byd y Cenhedloedd Unedig a'r Sefydliad Bwyd ac Amaeth yn datblygu safonau;
- mae cytundebau Sefydliad Masnach y Byd o ran mesurau iechydol a ffytoiechydol a rhwystrau technegol i fasnach yn pennu'r meincnod ar gyfer cysoni safonau bwyd byd-eang;
- mae'r **Sefydliad Safoni Rhyngwladol** yn datblygu safonau sy'n ymwneud â bwyd, diogelwch bwyd a maeth;
- mae'r Cenhedloedd Unedig wedi datblygu **Nod Datblygu Cynaliadwy 2** i wella maeth a **Nod Datblygu Cynaliadwy 3** ar fywydau iach a llesiant;

## Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

### Y Cytundeb Ymadael: Protocol Gogledd Iwerddon

O dan y Protocol, mae'n rhaid i Ogledd Iwerddon barhau i gyd-fynd â chyfraith yr UE mewn meysydd penodol, gan gynnwys labelu, cyfansoddiad a safonau maeth.

Mae goblygiadau i'r Protocol o ran masnachu bwyd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr:

- ar gyfer nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae cyfraith berthnasol yr UE yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon;

- ar gyfer nwyddau sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr, mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau **mynediad dirwystr** rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr yn golygu y gall nwyddau cymwys symud yn rhydd ar y cyfan, gydag ambell eithriad.

Y prif fforwm ar gyfer trafod gweithredu'r Protocol yw **Cyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael** a'i Bwyllgorau Arbenigol ar y Protocol (gweler **eglurhad Ymchwil y Senedd**). Ers iddo ddod i rym, mae'r Protocol wedi bod yn destun **nifer o anghydfodau rhwng y DU a'r UE**.

### Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn nodi rhwymedigaethau sy'n berthnasol i safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu, yn benodol:

- **darpariaethau tegwch yn y farchnad** (sy'n cynnwys effeithiau amgylcheddol cynhyrchu bwyd, yn enwedig y defnydd o wrthfiotigau a sylweddau dihalogi);
- gofynion helaeth i gydymffurfio ag offerynnau rhyngwladol, gan gynnwys cytundebau Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig.

## Masnach ryngwladol

Mae Llywodraeth y DU yn negodi cytundebau masnach â gwledydd eraill ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben.

Er enghraifft, bydd cytundebau masnach rydd ag **Awstralia** a **Seland Newydd** yn cyflwyno mynediad heb dariff llawn ar gyfer mewnforion amaethyddol i'r DU, wedi'i gyflwyno'n raddol dros nifer o flynyddoedd.

Mae **rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon** y gallai cytundebau masnach arwain at gynnydd mewn mewnforion o wledydd sydd â safonau bwyd gwahanol neu is na'r DU.

Mae'n **rhaid i Lywodraeth y DU gyflwyno adroddiad** ynghylch a yw cytundebau masnach penodol yn gyson ag amddiffyniadau statudol ar iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion lles anifeiliaid a'r amgylchedd, wedi'i lywio gan **gyngor y Comisiwn Masnach ac Amaeth**.

# 2. Y fframwaith cyffredin

Mae'r fframwaith cyffredin dros dro yn nodi sut y bydd y llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd i wneud penderfyniadau am labelu, cyfansoddiad a safonau labelu yn y cyd-destun newydd hwn. Rhoddir effaith i bob fframwaith gan Goncordat y cytunwyd arno rhwng Gweinidogion.

Datblygwyd y fframwaith pan nad oedd Gweinidogion yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'n nodi, os sefydlir Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, y cynhelir adolygiad o'r fframwaith. Nid yw'n glir a gynhaliwyd adolygiad o'r fath cyn etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon yn 2022.

Mae'r fframwaith a'r Concordat yn cynnwys testun ar y farchnad fewnol a chydymffurfedd â chytundebau rhyngwladol yr oedd anghydfod yn eu cylch adeg eu cyhoeddi. Ers hynny, mae'r llywodraethau wedi dod i gytundeb ar destun safonol ar gyfer fframweithiau cyffredin ar y materion hyn.

# 3. Egwyddorion

## Egwyddorion fframweithiau cyffredin

Mae'r fframwaith yn cadarnhau y bydd yn gyson ag **egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) ar gyfer fframweithiau cyffredin**.

Mae'r fframwaith yn nodi'r canlynol:

> …. recognises the shared view of all parties that a common framework is highly desirable across UK, to **ensure the functioning [of] the UK internal market**, while acknowledging policy divergence; and to **ensure any future trade arrangements can be done on a UK basis** whilst recognising the common frameworks principles agreed at JMC(EN) in the Committee's communique of 16 October 2017 (see Appendix I)

Mae hyn yn awgrymu yr ystyrir bod y fframwaith yn angenrheidiol i fodloni'r ddau faen prawf cyntaf o chwech ar gyfer fframweithiau cyffredin y cytunwyd arnynt gan Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd).

**Gofynnodd Pwyllgor Materion Allanol y Bumed Senedd i Lywodraeth Cymru** pa rai o'r egwyddorion oedd yn gymwys ar gyfer y fframwaith hwn. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod pob un o'r chwe maen prawf yn gymwys.

## Egwyddorion labelu, cyfansoddiad a safonau maeth

Yn yr UE, mae polisi maeth wedi'i gysoni i raddau helaeth. Mae Rheoliadau 2019 yn dargadw'r cysondeb hwn yn y DU. Mae'r fframwaith yn caniatáu ar gyfer ymwahanu yn y dyfodol yn y DU o'r UE.

Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru pam y mae'r fframwaith yn caniatáu cwmpas gwahanol i gyfraith yr UE ar gyfer ymwahanu. **Dywedodd Llywodraeth Cymru** y canlynol:

> Mae cyfle yn awr i ddilyn trywydd gwahanol os yw asesiadau risg yn dangos bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur ac y gall sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn ac y gall y Farchnad Fewnol barhau i weithredu. Mae'r dull hwn yn cydnabod y pwerau newydd a drosglwyddwyd i Weinidogion ac yn parchu ac yn adlewyrchu setliadau Datganoli.

Mae'r fframwaith yn nodi'r canlynol:

> although **divergence in areas where law is currently fully harmonised is unlikely**, the ability to discuss and address any possible changes to the overarching principles are covered within these framework arrangements e.g. the substance must be safe, and claims/labelling must not mislead the consumer.

Mae'r concordat yn datgan y canlynol:

> ...the opportunity for consistency of approach across administrations will be sought in the first instance. The ability for divergence must be retained, while taking account of its impact on **consumer safety and confidence**, and the **functioning of the UK internal market**.

Nid yw'r fframwaith bob amser yn defnyddio iaith gyson ynghylch pryd y derbynnir ymwahanu. Er enghraifft, mae Rhan C, Adran 6 yn darparu bod gan y pedair llywodraeth y gallu i ymwahanu pan fo'n **angenrheidiol ac yn gymesur** ac mae'n mynd ymlaen i ddweud y dylid defnyddio'r broses datrys anghydfod pan nad ystyrir bod ymwahanu'n **angenrheidiol nac yn gymesur**.

# 4. Rheoli ymwahanu

## Gwneud penderfyniadau

Mae'r fframwaith yn nodi sut y bydd y llywodraethau'n cydweithio i gynnal cysondeb neu'n cytuno i ymwahanu.

Mae Atodiad IV yn nodi'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau drwy'r fframwaith. Bydd grŵp polisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth (NLCS) o swyddogion o bob llywodraeth yn cael ei sefydlu. O ystyried cyngor gwyddonol gan y pwyllgor arbenigol perthnasol, bydd y grŵp polisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth yn asesu:

- yr holl geisiadau o ran honiadau maeth ac iechyd newydd (Atodiad V);
- yr holl geisiadau i addasu cofrestrau a rhestrau o fitaminau, mwynau a sylweddau penodol eraill; bwydydd ar gyfer grwpiau penodol; a fitaminau a mwynau i'w defnyddio mewn atchwanegiadau bwyd;
- cynigion polisi newydd a gyflwynir gan unrhyw un o'r llywodraethau.

Os bydd swyddogion yn cytuno bod angen dull gweithredu ar draws y DU neu Brydain Fawr, byddant yn cyflwyno'r argymhelliad hwnnw i Weinidogion.

Os bydd swyddogion yn y grŵp polisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth yn cytuno bod angen ymwahanu, byddant yn uwchgyfeirio'r penderfyniad i uwch-swyddogion. Os bydd uwch-swyddogion yn cytuno, byddant yn cyflwyno argymhelliad ymwahanu i Weinidogion. Byddant yn rhoi esboniad o'r dulliau gwahanol a argymhellir a sail resymegol gryno yn nodi pam y mae'n briodol ymwahanu.

Bydd y Gweinidogion yn cytuno naill ai ar ddull cyffredin neu i ymwahanu. Os nad ydynt yn cytuno, gellir ddefnyddio'r mecanwaith datrys anghydfod.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi tabl o **geisiadau a ystyriwyd o dan y fframwaith**.

## Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU

Rhan o ddiben y fframwaith yw sicrhau gweithrediad marchnad fewnol y DU.

Mae **Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020** (y Ddeddf) yn nodi egwyddorion mynediad i'r farchnad yn y gyfraith ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a

chymwysterau proffesiynol. Nod yr egwyddorion hyn yw sicrhau (yn gyffredinol) y gall nwyddau a gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol y gellir eu gwerthu, a chymwysterau proffesiynol y gellir eu cydnabod mewn un rhan o'r DU gael eu gwerthu neu eu cydnabod mewn unrhyw ran arall.

Gallai'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn y Ddeddf gyfyngu ar effaith ymarferol deddfwriaeth Cymru ar labelu, cyfansoddiad a safonau maeth.

Mae gan Lywodraeth y DU bwerau i greu eithriadau newydd o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad neu amrywio'r rhestr o nodau dilys drwy reoliadau. Ers i'r fframwaith gael ei gyhoeddi, mae'r pedair llywodraeth wedi cytuno ar **broses ar gyfer ystyried eithriadau i'r Ddeddf mewn meysydd fframwaith cyffredin a chytuno arnynt**. Nid yw'n glir a fydd y fframwaith yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r broses hon.

## Rheoli effaith Protocol Gogledd Iwerddon

O dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i Ogledd Iwerddon barhau i gyd-fynd â chyfraith yr UE ar labelu, cyfansoddiad a safonau labelu. Nid yw'r fframwaith yn cyfeirio at y Protocol.

Yn 2021, ar ôl cyhoeddi'r fframwaith, cytunodd y llywodraethau ar destun safonol ar sut y dylai fframweithiau cyffredin ryngweithio â'r Protocol. Er enghraifft, mae'r fframwaith cyffredin ar **safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu** yn nodi'r canlynol:

- wrth i Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ar bolisi a rheoleiddio, bydd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan mewn trafodaethau a bydd ei barn yn cael ei hystyried;
- pan fo rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid yn unol â'r UE, bydd y pedair llywodraeth yn ystyried y newidiadau ac yn pennu effeithiau a chamau gweithredu dilynol.

Nid yw'n glir a fydd y fframwaith maeth yn cael ei ddiweddaru gyda darpariaeth debyg.

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd y grŵp polisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth yn gweithredu fel fforwm trafod, yn darparu proses effeithlon i barhau i ddatblygu'n gyfochrog â mannau eraill, e.e. yn yr UE. Mae **Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi** tabl o reoliadau'r UE a ystyriwyd gan y grŵp polisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth a deddfwriaeth ddomestig a wnaed mewn ymateb. Mae'r tabl yn cwmpasu'r cyfnod hyd at fis Ebrill 2022 a bydd yn cael ei ddiweddaru bob chwe mis.

## 5. Datrys anghydfodau

Mae Atodiad IV yn nodi'r mecanwaith datrys anghydfod os na ellir cytuno ar ddull cyffredin neu ymwahanu.

Mae'r fframwaith yn darparu y defnyddir y mecanwaith datrys anghydfod yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- ni ellir dod i gytundeb ar argymhelliad cyffredin ynghylch cais neu gynigion polisi;
- mae un neu fwy o'r partïon o'r farn bod y cylch gorchwyl neu'r paramedrau y cytunwyd arnynt ar gyfer y fframwaith llywodraethu wedi'u torri;
- mae un parti o'r farn bod egwyddor Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) wedi'i thorri, neu y rhoddwyd gormod o bwysau ar un egwyddor (neu ran o egwyddor) Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) ar draul un arall.

Os na fydd Gweinidogion portffolio o rannau gwahanol o'r DU yn cytuno a ddylid ymwahanu, bydd swyddogion, yn gyntaf, yn ystyried yr anghytundeb ac yn rhoi rhagor o esboniad i Weinidogion o'r dulliau gwahanol a argymhellir a pham na chytunwyd i ymwahanu.

Bydd swyddogion yn gohirio gweithrediad penderfyniadau gweinidogol yn ystod y broses datrys anghydfod. Gallai hyn arwain at oedi i benderfyniadau. Os bydd Gweinidogion yn dod i gytundeb yn ystod y broses datrys anghydfod, bydd y penderfyniad yn cael ei weithredu. Os na fyddant yn dod i gytundeb, bydd y penderfyniad yn cael ei ohirio i ragor o dystiolaeth gael ei chyflwyno.

Os na ellir datrys yr anghydfod drwy'r broses hon, mae'r fframwaith yn dweud y gellir ei uwchgyfeirio i'r broses datrys anghydfod rhynglywodraethol a nodir yn y **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli**. Ym mis Ionawr 2022, **cytunodd y llywodraethau** ar broses datrys anghydfod rhyngweinidogol newydd fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. **Dywedodd y Cwnsler** Cyffredinol fod hyn yn gam arloesol.

Nid yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer hysbysu seneddau neu randdeiliaid o anghydfodau. Fodd bynnag, mae **Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo** i hysbysu'r Senedd o anghydfodau.

# 6. Rheoli rhwymedigaethau rhyngwladol

Yn 2017, cytunodd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) y dylid sefydlu fframweithiau cyffredin pan fo'u hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiedd â rhwymedigaethau rhyngwladol ac er mwyn sicrhau y caiff y DU negodi, ymrwymo i gytundebau rhyngwladol newydd a'u gweithredu.

Mae'r fframwaith yn cydnabod mai'r llywodraethau datganoledig sy'n gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

## Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

Cyhoeddwyd y fframwaith, cyn i'r DU a'r UE lofnodi'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu**.

Mae rhai fframweithiau'n darparu i Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig gydweithio wrth weithredu Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE. Maent yn darparu y caiff cynrychiolwyr y llywodraethau datganoledig fynd i gyfarfodydd perthnasol rhwng y DU a'r UE, yn unol ag **ymrwymiadau ehangach Llywodraeth y DU**.

## Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae'r fframwaith yn nodi nad oes rhwymedigaethau rhyngwladol cymwys sy'n berthnasol i'r fframwaith (Rhan B, adran 2.6). **Ailadroddodd Llywodraeth Cymru** hyn yn ei gohebiaeth at Bwyllgor Materion Allanol y Bumed Senedd.

Fodd bynnag, mae cyfeiriadau lluosog at rwymedigaethau rhyngwladol wedi'u cynnwys yn y fframwaith ac o fewn deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a restrwyd yn y ddogfen.

Er enghraifft, mae'r DU yn aelod o'r Cenhedloedd Unedig ac mae Sefydliad Bwyd ac Amaeth a Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n perthyn i'r Cenhedloedd Unedig, yn cydoruchwylio'r **Codex Alimentarius** (cod safonau bwyd gwirfoddol, canllawiau a chodau ymarfer sy'n cwmpasu pob agwedd ar reoleiddio bwyd, gan gynnwys **maeth a labelu**, atchwanegiadau bwyd a honiadau iechyd). Cydnabyddir y Codex gan Sefydliad Masnach y Byd mewn masnach ryngwladol ac anghydfodau masnach. Mae'r fframwaith a deddfwriaeth yr UE ynddo'n cyfeirio at y Codex, yn ogystal â safonau rhyngwladol tebyg eraill (er enghraifft, ar gyfer marchnata amnewidion llaeth y fron). Mae cyfeiriadau at y Codex wedi'u cadw yn y DU drwy

gyfraith yr UE a ddargedwir (**Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**).

Mae gan bob gwladwriaeth fuddiant breintiedig mewn dilyn safonau rhyngwladol fel y Codex, gan eu bod â rôl bwysig yn symudiad byd-eang bwyd, masnach bwyd ac osgoi anghydfodau Sefydliad Masnach y Byd. Mae cytundebau masnach presennol y DU ac yn y dyfodol yn ymgorffori'r elfennau hyn a disgwylir y bydd y fframwaith labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth yn gydnaws â'r rhain.

Nodir rhai manylion am **ddull gweithredu'r DU o ran rhwymedigaethau rhyngwladol yn y dyfodol** yng Nghoncordat pedair gwlad y fframwaith, sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad. Er enghraifft, bydd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol am lunio polisi tramor perthnasol y DU.

Mae'r fframwaith yn ymrwymo'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig yn llawn mewn trafodaethau am ei ffurfio, gan gynnwys edrych i gytuno ar safbwynt pan fo'n bosibl (adran 9). Tynnir sylw at y testun hwn fel un sy'n destun negodi.

Cyhoeddwyd y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer **safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu** ym mis Chwefror 2022 ac mae'n cynnwys testun y cytûn ar gysylltiadau rhyngwladol, yn ymrwymo'r llywodraethau i gydweithio ar sail y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli presennol a'r Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol sy'n cyd-fynd ag ef.

# 7. Monitro, adolygu a diwygio

Mae'r fframwaith yn nodi y caiff ei adolygu chwe mis, blwyddyn a thair blynedd ar ôl ei weithredu ac, wedi hynny, bob tair blynedd.

Mae'r Concordat yn darparu y caiff ei adolygu hefyd ar gais unrhyw un o'r partïon ac y bydd angen i bob parti gytuno ar unrhyw newid. Nid yw'r fframwaith yn nodi proses ar gyfer diwygio.

Mae'r fframwaith hefyd yn nodi y bydd y grŵp polisi labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth yn casglu gwybodaeth chwarterol am gyfarfodydd ac yn llunio adroddiad blynyddol ar y fframwaith. Bydd hyn yn cael ei ddarparu i Weinidogion.

# 8. Tryloywder ac atebolrwydd

Cyn yr etholiad yn 2021, gwnaeth **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y y Senedd a **Phwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban** waith craffu ar y fframwaith cyffredin dros dro. **Ystyriodd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi hefyd** y fframwaith. Cododd y Pwyllgorau bryderon nad oedd dogfen y fframwaith yn gyfoes a gwnaethant alw am ragor o ymgysylltiad seneddol.

**Gofynnodd Pwyllgor Materion Allanol y Senedd i Lywodraeth Cymru** am y modd yr ymgysylltwyd â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r fframwaith. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi cynnal sesiwn ymgysylltu dechnegol gyda chynrychiolwyr y diwydiant bwyd (gan gynnwys rhai o Gymru) ac y traddodwyd cyflwyniad yng nghyfarfod Grŵp Arbenigwyr Busnes Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU. Dosbarthodd Llywodraeth Cymru wahoddiadau i'r ddau ddigwyddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru sut yr adlewyrchwyd ymatebion rhanddeiliaid yn y fframwaith. Dywedodd y **Gweinidog y canlynol**:

> **Roedd rhanddeiliaid (gan gynnwys y rhai o Gymru) yn cefnogi diben ac egwyddorion y fframwaith ond mynegwyd awydd am lefelau uwch o gydlynu rhwng adrannau ar fframweithiau bwyd; cyfathrebu â rhanddeiliaid; prosesau ymgysylltu clir ar ôl ymadael, a mwy o ymgynghori.**
>
> Dywedodd rhanddeiliaid eu bod hefyd yn teimlo'n dawel eu meddwl gan y cynigion ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd a mecanweithiau datrys anghydfodau. Cafodd y fframwaith ei fireinio o ganlyniad i'r adborth a gafwyd.

Nid oes ymrwymiadau i roi rôl i seneddau o ran monitro gweithrediad y fframwaith na chraffu ar ddiwygiadau. Ym mis Mawrth 2022, **cytunodd y Cwnsler Cyffredinol** mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor DCC i hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid pan gaiff fframwaith cyffredin ei adolygu, a thrafod eu hargymhellion cyn i'r broses adolygu ddod i ben.

Nid oes ymrwymiad i adroddiadau ar weithredu'r fframwaith gael eu creu na'u cyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r **llywodraeth wedi cyhoeddi** diweddariadau ar geisiadau a newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE a ystyriwyd o dan y fframwaith. Ym mis Tachwedd 2022, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod y llywodraethau wedi cytuno i adrodd i'r seneddau ar y fframweithiau cyffredin yn y dyfodol.